

Gwahoddiad i briodas

“... daeth dydd priodas yr Oen, ac ymbaratôdd ei briodferch ef.” (adn. 7)

Beth am ddarllen Datguddiad 19:1–10 ac yna myfyrio

Wedi treulio tridiau yn myfyrio ar y ffaith mai stori Duw ydy hanes, fe symudwn ymlaen nawr i'n holi'n hunain: Beth yn union yw'r stori gyfan mae'r Beibl yn ei hadrodd? Beth yw stori fawr Duw? *Stori garu* yw hi. Ddarau ni gyffwrdd ar y pwynt hwn ychydig ddyddiau yn ôl wrth edrych ar hanes Abraham yn gyrru ei was, Eliasar, i ddod o hyd i wraig i Isaac, ond dewch imi gael sôn amdano mewn mwy o fanylder.

George Macdonald ysgrifennodd: “Pan ydym ni'n dinoethi ffeithiau hanes, ynghyd â datganiadau niferus yr Ysgrythur, fe ddown ar draws stori garu anferthol ei maint – cariad y Tad at y Mab, a chariad y Mab at ei Briodferch.” Fel hyn y dywed A.W. Tozer y peth: “Y diwedd oedd gan y Tad mewn golwg ar gyfer ei fydysawd pan luniodd ef hi gyntaf oedd darparu priodferch ar gyfer ei Fab. Hyn, a hyn yn unig, sydd yn datguddio inni'r holl ystyr y tu cefn i hanes ac sy'n ei wneud yn bosibl inni ei amgyffred.” Felly, mae stori fawr Duw yn ei hanfod yn un ramantus.

Mae gofal Duw am ddarparu priodferch ar gyfer ei Fab yn cael ei ragfynegi yn y teipiau a'r cysgodion o hynny a geir yn yr Hen Destament; fe'i datblygir yn llawnach ar ein cyfer gan yr apostol Paul, a daw i'w lawn ddatblygiad yn yr adran o'n blaenau heddiw. Y digwyddiad mwyaf yn y tragwyddoldeb sydd i ddod fydd gwledd briodas yr Oen.

Flynnydoedd lawer yn ôl, fe ysgrifennodd rhywun y geiriau digalon hyn: “Ym mha ffordd y daw'r byd i ben? Nid gyda *bang*, ond gydag ochenaid.” I Gristnogion, nid ochenaid fydd diwedd pob dim, ond priodas. Byddwn ni sydd wedi ein denu gan Grist a'n hennill iddo ryw ddydd yn briod ag ef. Haleliwia!

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 22:1–14;

Ioan 2:1–11

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sy'n ddisgwyliedig o bawb sy'n mynychu priodas?
2. Pa eiriau a ddywedwyd gan Mair a fydd yn ein harbed rhag cael ein cau allan?

Gweddi

O Dad, mae'r wybodaeth hon yn rhy ryfedd eto i mi. Byddai wedi bod yn ddigon cael fy achub rhag uffern a rhoi lle imi yn y nef. Ond cael fy uno â thi, bod yn un â thi, mae hyn yn ormod imi bron. Y cyfan y gallaf i ei ddweud yw: Diolch iti, addfwyn Arglwydd. Diolch iti. Amen.